# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd D - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 24 Mai 2017

Amser: 13.30 - 16.20

# WRB(10)

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau’r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Rebecca Hardwicke, Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Kevin Davies, Pennaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd |
| Staff y Pwyllgor: | Daniel Collier, Clerc dros dro<br>Sian Giddins, Dirprwy Glerc |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Bwrdd i’r cyfarfod.

1.2 Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2017.

1.3 Gwnaeth y Bwrdd:

- nodi ei raglen waith ar gyfer gweddill 2017 a'i dyddiadau cyfarfodydd hyd at fis Mawrth 2018;

- gohirio penderfyniad i ganslo ei gyfarfod ym mis Hydref 2017 i'w gyfarfod ym mis Gorffennaf;
- cytuno i drafod ei ddyddiadau cyfarfodydd hyd at fis Mawrth 2019 y tu allan i'r cyfarfod ac i gytuno ar y dyddiadau hynny yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

1.4 Trafododd y bwrdd ganlyniadau'r arolwg boddhad Aelodau’r Cynulliad a Staff Cymorth blynyddol cyntaf a nodi y gallai rhai o'r canlyniadau fod yn berthnasol i'w waith ar effeithiolrwydd ac egwyddorion sylfaenol y Penderfyniad.

1.5 Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar yr ymarfer recriwtio diweddar i benodi aelod newydd o'r Bwrdd.

1.6 Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd y byddai'n cyfarfod â Chadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i drafod unrhyw faterion a allai fod yn berthnasol i waith y Bwrdd yn y dyfodol o ran datblygu Penderfyniad sy'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad.

1.7 Cytunodd y Bwrdd i drafod datblygu diffiniad ar gyfer rôl Aelodau’r Cynulliad a'u staff cymorth i'w gynnwys yn y Penderfyniad.

1.8 Cytunodd y Bwrdd i ystyried y broses y mae Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ei defnyddio i weinyddu hawliadau yn y cyfarfod nesaf.

## 2 Eitem i'w thrafod: Cymorth i bleidiau gwleidyddol

2.1 Trafododd y Bwrdd y papur ar gymorth i bleidiau gwleidyddol a chytunodd i drafod y darpariaethau yn ymwneud â chymorth i bleidiau gwleidyddol ac Aelodau unigol yn llawn yn ddiweddarach, ond ar hyn o bryd:

- bydd cyflog Arweinwyr Pleidiau yn lleihau a chynyddu yn unol â sawl Aelod Cynulliad sydd eu grŵp ac nid sawl aelod sydd yn y Blaid Wleidyddol;
- caiff Lwfans Cymorth Pleidiau Gwleidyddol eu dyrannu i Aelodau annibynnol;
- Gall Aelodau’r Cynulliad annibynnol drosglwyddo cyllid i grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad.

## 3 Eitem i'w thrafod: Strategaeth Ymgysylltu'r Bwrdd Taliadau

3.1 Trafododd y Bwrdd ei strategaeth ymgysylltu a chytunodd i:

- ystyried yr opsiynau i ddatblygu ei microwefan annibynnol ei hun a phresenoldeb yn y cyfryngau cymdeithas; a

- datblygu strategaeth ymgysylltu pwrpasol ar gyfer pob darn o waith.

**Camau gweithredu:**

Yr Ysgrifenyddiaeth i:

- baratoi enghraifft o sut gallai microwefan y Bwrdd edrych; a
- nodi ffyrdd o fynd ati i ymgysylltu a chyfathrebu ar gyfer gwaith sydd ar y gweill.